# Y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol

| | |
|---|---|
| Lleoliad: | **Ystafell Bwyllgora 1 – Y Senedd** |
| Dyddiad: | **Dydd Iau, 10 Tachwedd 2011** |
| Amser: | **10:15 – 11:50** |

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

Gellir gwylio'r cyfarfod ar Senedd TV yn:
http://www.senedd.tv/archiveplayer.jsf?v=cy_200000_10_11_2011&t=0&l=cy

## Cofnodion Cryno:

| | |
|---|---|
| Aelodau'r Cynulliad: | **Mark Drakeford (Cadeirydd)**<br>**Mick Antoniw**<br>**Rebecca Evans**<br>**Vaughan Gething**<br>**William Graham**<br>**Elin Jones**<br>**Lynne Neagle**<br>**Lindsay Whittle**<br>**Kirsty Williams** |
| Tystion: | **Byron Grubb, Cadeirydd, Cyngor Iechyd Cymunedol Aneurin Bevan**<br>**Catherine O'Sullivan, Prif Swyddog, Cyngor Iechyd Cymunedol Aneurin Bevan** |
| Staff y Pwyllgor: | **Sarah Beasley (Clerc)**<br>**Llinos Dafydd (Clerc)**<br>**Naomi Stocks (Clerc)**<br>**Catherine Hunt (Dirprwy Glerc)**<br>**Joanest Jackson (Cynghorydd Cyfreithiol)**<br>**Stephen Boyce (Ymchwilydd)**<br>**Victoria Paris (Ymchwilydd)** |

### 1. Cyflwyniad, ymddiheuriadau a dirprwyon

1.1 Cafwyd ymddiheuriadau gan Darren Millar. Nid oedd dirprwy.

### 2. Y dull o ystyried deddfwriaeth

2.1 Nododd y Pwyllgor y papur a thrafododd ei ddull cyffredinol o ystyried deddfwriaeth.

2.2 Mewn perthynas â’r papur gwyn ar roi organau, cytunodd y Pwyllgor i geisio cynnal dwy sesiwn gydag uwch-swyddogion Llywodraeth Cymru, yn gyntaf ar ddechrau’r broses ymgynghori ac eto ar ôl cau’r ymgynghoriad. Diben y sesiynau hyn fyddai cael y wybodaeth ddiweddaraf am ddatblygiad y papur gwyn, yn hytrach na mynegi barn ar ei gynnwys.

## 3. Ymchwiliad i gyfraniad fferylliaeth gymunedol i wasanaethau iechyd yn Nghymru - tystiolaeth gan Gyngor Iechyd Cymunedol Aneurin Bevan

3.1 Atebodd y tystion gwestiynau Aelodau’r Pwyllgor am gyfraniad fferylliaeth gymunedol i wasanaethau iechyd yng Nghymru.

3.2 Cytunodd y tystion i ddarparu rhagor o wybodaeth am yr adolygiad o wasanaethau fferylliaeth.

## 4. Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.24(vi) i benderfynu gwahardd y cyhoedd o'r cyfarfod ar gyfer eitem 5

4.1 Derbyniodd y Pwyllgor y cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42(vi) i benderfynu gwahardd y cyhoedd o'r cyfarfod ar gyfer eitem 5.

## 5. Ymchwiliad i leihau'r risg o strôc - trafodaeth breifat am y prif faterion

5.1 Bu’r Pwyllgor yn trafod y papur ar y prif faterion ar gyfer yr ymchwiliad i leihau’r risg o strôc. Cytunodd y byddai’n ystyried prif negeseuon ac argymhellion y papur yn y cyfarfod nesaf.

## 6. Papurau i'w nodi

6.1 Cytunodd y Pwyllgor y byddai’n parhau i gael cofnodion y cyfarfodydd blaenorol fel papurau i’w nodi, ac y dylai Aelodau hysbysu’r Clerc am unrhyw faterion y maent am eu codi mewn perthynas â nhw.

6.2 Bu’r Pwyllgor yn trafod y llythyr oddi wrth y Pwyllgor Deisebau ynghylch y ddeiseb am eli haul ar gyfer plant dan 11 oed. Cytunodd y Pwyllgor bod y ddeiseb yn fwy perthnasol i gylch gwaith y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc, sy’n gyfrifol am faterion iechyd plant.

6.3 Nododd y Pwyllgor y llythyr oddi wrth y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol am wasanaethau iechyd meddwl i oedolion.

6.4 Nododd y Pwyllgor ei flaenraglen waith hyd at doriad y Nadolig.

## Trawsgrifiad

Gweld trawsgrifiad o’r cyfarfod.